# ROBERTS, JOHN (1879 - 1959), gweinidog (MC) a hanesydd

**Enw:** John Roberts
**Dyddiad geni:** 1879
**Dyddiad marw:** 1959
**Priod:** Annie Jones Roberts (née Hughes)
**Rhiant:** Ann Roberts (née Williams)
**Rhiant:** John John Roberts
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog (MC) a hanesydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 16 Hydref 1879 ym Mhorthmadog, Caernarfon, mab John J. Roberts ('Iolo Caernarfon'), ac Ann ei briod. Addysgwyd ef yn ysgol fwrdd Porthmadog, ysgol ramadeg y Bala, a Choleg Iesu, Rhydychen, lle graddiodd gydag anrhydedd yn y clasuron, ac wedyn mewn diwinyddiaeth. (Cafodd radd D.D., er anrhydedd, yn niwedd oes gan Brifysgol Cymru). Ordeiniwyd ef yn 1905, a bu'n gweinidogaethu yn Aberdyfi (1903-06), David St., Lerpwl (1906-13), a Pembroke Tce., Caerdydd (1913-38). Galwyd ef i fod yn ysgrifennydd Cronfa Ganolog Sasiwn y De yn 1938; ymhen deng mlynedd unwyd cronfeydd y de a'r gogledd, ac ef oedd ysgrifennydd cyntaf y Gronfa Unedig. Priododd, 1903, Annie Jones Lewis, Porthmadog; ganwyd iddynt bedwar mab a dwy ferch. Bu farw 29 Gorffennaf 1959.

Yr oedd John Roberts yn rheng flaenaf pregethwyr ei oes, er nad oedd ganddo lais addas ar gyfer y pulpud (gweler barn R.T. Jenkins arno fel pregethwr, *Cyfoedion* (1976); 39-41). Bu'n llywydd Sasiwn y De (1941), ac yn llywydd y Gymanfa Gyffredinol (1943). Traddododd y Ddarlith Davies yn 1930 ar ' Athroniaeth hanes y Cyfundeb '; fe'i cyhoeddwyd yn 1931 dan y teitl *Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, 'ymgais at athroniaeth ei hanes'* (arg. Saesneg 1934). (Gweler eto farn R.T. Jenkins ar y gyfrol a'i rhoes yn rheng flaenaf haneswyr yr Hen Gorff, *ibid.*, 41-42.) Cyfrannodd lawer o ysgrifau i'r *Goleuad*, ac i gylchgronau'i enwad. Ei gyfraniad pwysicaf i'w Gyfundeb oedd sefydlu cynllun newydd trefn a chynhaliaeth y weinidogaeth. Datblygodd yn drefnydd a gweinyddwr dihafal. Yr oedd ganddo feddwl treiddgar a disgybledig a'i gwnâi'n feistr ar bopeth yr ymaflai ei law ynddo. Diddorol yw sylwi ar ei hobïau, sef herodraeth, darllen Who's Who a mapiau, a meistroli tablau amser y rheilffyrdd !

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau

At yr uchod, *Who's who in Wales* (1921), 414

*Who's who in the Free Churches?* (1951), 323

*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1960, 271-72

William Morris (gol.), *Deg o Enwogion* (1965) (1965), 60-8

ac adnabyddiaeth bersonol

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 41371768

Wikidata: Q6255172

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cfrannu